
CYFRES B3

# amserbeibl

## Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4



Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th




DARLLENWCH
Luc 10: 38-42



ADNOD ALLWEDDOL
Marc 6: 31

## Astudiaeth 1 Bethania – Yn y Cartref



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
**Marc 6: 7-13 Rhufeiniaid 12: 1-2 Eseia 40: 28-31**

Yn ystod tair blynedd ei waith cyhoeddus, does neb yn gwybod faint o filltiroedd a gerddodd yr Arglwydd Iesu wrth deithio trwy Jwdea a Galilea. Yn aml, mae'n siwr ei fod wedi blino ac eisiau bwyd, yn barod i gael gorffwys. Mae'n debygol bod croeso iddo bob amser i gael gorffwys a phryd o fwyd yng nghartref Mair a Martha.

**C Edrychwch ar Ioan 11:1 i gael gweld lle'r oedd Mair a Martha'n byw.** ______ 1

**C Nid yw'r pentref hwn yn bell o brifddinas Jwdea, sef**
______________________ **Darllenwch Ioan 11: 18** 1

Wrth deithio i'r brifddinas, byddai'n rhaid i bobl ddringo rhiwiau serth. Byddai llawer o bobl yn aros ym mhentref Mair a Martha i gael gorffwys cyn dringo rhan olaf y rhiw i'r ddinas.

**C Yn ôl Luc 10:38 beth wnaeth Martha pan ddaeth Iesu i'w phentref?** 2

______________________

______________________

Roedd y ddwy chwaer yn wahanol iawn i'w gilydd o ran eu cymeriad.

## CHWILAIR

**Mae'r geiriau coll o'r brawddegau isod yn y Chwilair. Rhowch gylch o gwmpas y geiriau a'u rhoi yn y lle cywir yn y brawddegau. Maen nhw wedi'u hysgrifennu am yn ôl, ymlaen, i fyny ac i lawr.**

Aeth Iesu a'i ______________ i gartref Mair a Martha.

Roedd Mair yn ______________ wrth ________ Iesu, yn ______________ arno'n siarad.

Roedd Martha yn brysur yn paratoi ________ .

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | DD | W | A | I | R | E | N |
| D | I | I | U | R | A | I | A |
| G | S | B | DD | W | R | M | TH |
| R | G | W | R | A | N | D | O |
| O | Y | Y | I | D | R | N | R |
| P | B | D | A | R | A | I | S |
| O | L | P | H | A | R | A | O |
| E | I | S | T | E | DD | N | A |
| M | O | M | U | D | A | E | R |
| M | N | O | E | C | I | D | O |

5

Roedd Mair eisiau dysgu gan yr Arglwydd Iesu. Yr unig ffordd iddi wneud hynny oedd bod yn agos ato a chanolbwyntio ar yr hyn yr oedd yn ei ddweud. Efallai nad oedd hi wedi'i glywed yn siarad fel hyn o'r blaen. Roedd Martha yn poeni mwy am ei gwaith o gwmpas y tŷ. Mae'n hawdd i ni fod fel Martha a bod mor brysur yn gwneud ein gwaith cartref, chwaraeon, gwylio'r teledu ac ati fel nad ydym yn treulio amser yn darllen Gair Duw ac yn gweddïo. Os na wnawn ni aros a gwrando ar yr Arglwydd, fyddwn ni ddim yn gwybod beth sydd ganddo i'w ddweud wrthym..

**Doedd Martha ddim yn hapus iawn.**

**C** **Beth oedd cwyn Martha wrth Iesu?**

1

**C** **Ysgrifennwch y rhan o ateb Iesu a geir yn adnod 41.**

1

Yn adnod 42 mae'r Arglwydd Iesu yn parhau â'i ateb i Martha.

**C** **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth roedd Iesu'n ei olygu wrth roi'r ateb hwn.**

2

Un waith, roedd y disgyblion yn brysur iawn, fel Martha.

**C** **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a thanlinellu'r union eiriau a ddywedodd Iesu wrthynt.**

3

**C** **Edrychwch ar Mark 6: 7-13 a rhoi √ neu ✕ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir:-**

Roedd Iesu wedi anfon y disgyblion allan mewn parau. ...............

Roedd wedi dweud wrthynt am fynd i chwilio'r wlad. ...............

Fe gawson nhw bryd mawr i ddathlu pan ddaethon nhw nôl. ...............

Mae'r Adnod Allweddol yn dangos pa mor bwysig yw bod yn dawel a gorffwys ar ôl cael amser prysur. ...............

4

Treuliodd y disgyblion y diwrnod yn gwrando ar Iesu, fel y gwnaeth Mair.
Y cyngor i'w gofio yn y wers hon yw:-

**'Peidiwch â bod mor brysur yn eich bywyd fel nad oes amser gennych i wrando ar Iesu a dysgu wrtho'.**

cyfanswm